# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ22605, a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, Y Prif Weinidog, ar 25 Mawrth 2003

**At Peter Rogers:**

Ysgrifennaf atoch, fel yr addewais yn y Cyfarfod Llawn ar ddydd Mawrth 25 Chwefror, yn dilyn eich cwestiwn ynglŷn ag enwebiad Mrs Anne Hughes gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Ynys Môn i fynychu derbyniad yn 10 Stryd Downing i gydnabod yr hyn a gyflawnodd ym maes anghenion addysgol arbennig.

Gallaf ddweud wrthych fod enwebiadau wedi'u ceisio ac wedi dod i law oddi wrth bob awdurdod lleol yng Nghymru, yn cynnig enwau unigolion a wnaeth gyfraniad sylweddol ym maes addysgu disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig. Ymysg y rhai a enwebwyd yr oedd penaethiaid, athrawon, nyrsys meithrin, staff cymorth a swyddogion. Mae'n ymddangos i Mrs Hughes gael ei henwebu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Ynys Môn am ei bod yn haeddu cydnabyddiaeth yn y maes hwn. Fodd bynnag, lluniwyd rhestr fer o 30 o enwau, yn cynrychioli amrywiaeth daearyddol ar draws Cymru yn ogystal ag amrywiaeth galwedigaethau. Ni chafodd Mrs Hughes ei dethol ar y rhestr fer hon, ac felly ni fynychodd y derbyniad.

Yr ydych yn gywir pan ddywedwch bod Mrs Hughes wedi gwneud cwyn yn erbyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Ynys Môn, a bod ein swyddogion yn ymchwilio iddi ar hyn o bryd. Dywedir wrthyf y bydd cyngor yn cael ei roi cyn bo hir i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, y mae'r cyfrifoldeb am benderfynu ynghylch cwynion o'r fath wedi ei ddirprwyo iddi. Disgwyliaf benderfyniad ar y mater hwn yn fuan ac, oherwydd hyn, byddai'n amhriodol imi wneud sylw ar fanylion penodol y gwyn.